

Cynnwys pobl yn y Cynllun Llesiant hwn: ein dull o ymgysylltu ac ymgynghori

Cynllun i bawb.

Cafodd y ddogfen hon ei llunio gan lawer o bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Ngwent.

Yn ystod haf 2022, aeth staff o sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC ati i ymweld ag ystod o ddigwyddiadau cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe wnaethant siarad â phobl am ganfyddiadau ein Hasesiad Llesiant a'n bwriad i gyd-gynhyrchu'r Cynllun Llesiant hwn.

Fe wnaethon ni drefnu stondin mewn nifer o ddigwyddiadau cymunedol mawr gan gynnwys digwyddiad Go Wild ym Mharc Bryn Bach yn Nhredegar, Digwyddiad Mawr Cwmbrân, Parti yn y Parc ym Mhont-y-pŵl, diwrnod agored Heddlu Gwent 'Behind the Badge'. Aethom ati hefyd i rannu stondin Cynghorau Balch adeg 'Pride in the Port', digwyddiad cyntaf Pride yng Nghasnewydd.

Buom yn siarad â phobl i egluro'r BGC a'i gylich gwaith a gwrando ar yr hyn y maent yn ei feddwl am y syniad o Gynllun Llesiant a'r hyn y dylai ei gynnwys.

Y Cyfnod Ymgynghori

Cynhaliwyd ein hymgynghoriad cyhoeddus statudol rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 2022.

Arolwg yr Ymgynghoriad

Lansiwyd arolwg ar 1 Hydref, yn gwahodd sylwadau ar 3 Amcan Llesiant drafft:

- Rydym am greu Gwent deg a chyfiawn i bawb
- Rydym am greu Gwent sydd â chymunedau cyfeillgar, diogel a hyderus
- Rydym am greu Gwent lle mae'r amgylchedd naturiol yn cael ei warchod a'i wella

Roedd yr arolwg hefyd yn awgrymu 17 'cam' tuag at gyflawni'r amcanion.

Roedd yr arolwg ar gael ar-lein yn Gymraeg a Saesneg ac roedd copïau caled a fersiynau hawdd eu darllen hefyd ar gael.

Dosbarthwyd taflenni'n hyrwyddo'r arolwg i amryw adeiladau cyhoeddus yn cynnwys llyfrgelloedd a chanolfannau addysg oedolion. Roedd posteri'n dangos dolen i god QR hefyd i'w gweld yn yr adeiladau hyn ac mewn adeiladau eraill.

Roedd yr holl ddeunyddiau ymgynghori ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Daeth tîm ymgysylltu Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i 24 o wahanol leoliadau ledled Gwent i ddosbarthu deunyddiau'r ymgynghoriad i'r cyhoedd. Cawsant gyfle i siarad â phobl yn yr archfarchnadoedd, ysbytai cymunedol, hybiau, canolfannau cymunedol, caffis, eglwysi, theatrau, marchnadoedd dan do a chanolfan arddio.

Fe wnaethom hefyd gyflwyno gwybodaeth i grwpiau drwy e-bost a thrwy fynychu cyfarfodydd.

Daeth yr arolwg i ben ar 31 Rhagfyr ar ôl derbyn 360 o ymatebion unigol gan y cyhoedd.

Gwrando ar grwpiau cymunedol

Cafodd grwpiau cymunedol ledled Gwent gyfle hefyd i fod yn rhan o broses ddatblygu'r Cynllun Llesiant.

Aethom ati i gysylltu â grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig neu nodweddion gwarchoddedig a rennir i'n helpu i ddeall profiadau bywyd ac ystyried anghenion penodol.

Roedd ein dulliau ymgysylltu yn cynnwys sesiynau ar lein a grwpiau ffocws wyneb yn wyneb, felly cawsom ystod eang o gyfranogwyr a safbwyntiau.

Aethom ati i ystyried:

- Y Gymraeg a diwylliant Cymru, drwy siarad gyda Menter Iaith
- Anghenion pobl hŷn, drwy siarad â sawl Fforwm 50+
- Pobl ifanc, drwy siarad â Fforwm Pobl Ifanc Blaenau Gwent a grŵp ieuencid LHDTC+
- Pobl anabl, drwy gyflwyno'r ymgynghoriad i Fforwm Mynediad Torfaen
- Pobl ag anableddau dysgu, drwy rhoi fersiynau hawdd eu darllen o'r ymgynghoriad yng nghynhadledd flynyddol Anableddau Dysgu Cymru.
- Grŵp newydd i dadau, gan gydnabod bod dynion ifanc yn grŵp nad ydynt yn cymryd rhan yn sylweddol mewn ymgynghoriadau ar lein
- Gofalwyr, drwy gysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol adeg digwyddiad ar y cyd gyda Fforwm Darparwyr Rhanbarthol Gwent.
- Fe wnaethom hefyd fynychu Panel Dinasyddion Gwent.

Dull ansoddol oedd y ffordd ddelfrydol o gasglu adborth ar ôl ymgysylltu â'r grŵp cymunedol gan ei fod yn caniatáu dealltwriaeth ddefn o farn ystod o bobl sy'n byw yng Ngwent. Roedd yn caniatáu i ni gasglu data a roddodd ddealltwriaeth fanwl iawn o'r canfyddiadau ynghylch y Cynllun Llesiant Drafft. Roedd cyfuniad o gwestiynau strwythuredig ac agored yn caniatáu i'r hwyluswyr gychwyn trafodaeth am y drafft ond hefyd rhoddwyd cyfle i'r cyfranogwyr gyfleu eu barn yn agored a chyffwrdd ar lwybrau yr oeddent yn eu hystyried yn rhai yr oedd angen mynd i'r afael â nhw. Rhoddodd gyfle iddynt hefyd i awgrymu materion nad oeddent i'w gweld yn yr amcanion a'r camau.

Digwyddiadau i ymgysylltu â'r rhanddeiliaid

Aeth y 5 ardal awdurdod lleol ati i gynnal digwyddiad hanner diwrnod i gysylltu â rhanddeiliaid. Roedd y digwyddiad yn agored i staff y mudiadau sy'n aelodau o'r BPRh, y trydydd sector ehangach a phartïon eraill oedd â budd.

Fe wnaeth y sesiynau ganiatáu i rhanddeiliaid drafod materion rhanbarthol a lleol, a chafwyd cyflwyniad gan y Sefydliad Tegwch Iechyd i ddeall mwy am annhegwch yng Ngwent ac ystyr dod yn rhanbarth Marmot.

Craffu Ffurfiol

Craffwyd yn ffurfiol a helaeth hefyd ar y Cynllun Llesiant.

Mae gan y 5 ardal awdurdod lleol Bwyllgorau Craffu, sy'n cynnwys gwleidyddion a etholwyd i lywodraeth leol, sy'n archwilio gwaith lleol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fe wnaeth y Pwyllgorau Craffu ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen adolygu'r Cynllun Llesiant drafft a rhoi eu barn.

Ffurfiwyd Pwyllgor Craffu BGC rhanbarthol hefyd ac aethant ati i adolygu'r Cynllun ym mis Mawrth 2023.

Adborth gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Aeth Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ati i adolygu'r cynllun drafft a rhoi adborth gwerthfawr. Mae rhai o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC hefyd wedi rhoi adborth ysgrifenedig.

Yr hyn a ddywedodd y bobl wrthym, a'i ddylanwad ar y Cynllun Llesiant

Negeseuon allweddol:

*Dangosodd ymatebion fod y **costau byw cynyddol** yn cael effaith sylweddol ar les economaidd a meddyliol pobl yng Ngwent. Mae'r costau uchel o ran ynni, tai, tanwydd a bwyd wedi cael effaith sylweddol ar yr incwm sydd gan lawer i'w wario yn y rhanbarth ac mae pobl yn poeni am gynnydd pellach.*

*Thema a ddaeth i'r amlwg dro ar ôl tro oedd **ansicrwydd bwyd a thlodi bwyd**. Soniwyd am y banciau bwyd, ond fe wnaeth yr ymatebwyr grybwyll yr angen i gefnogi siopau bwyd ac archfarchnadoedd lleol. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at y cyswllt rhwng bwyd a diogelu'r amgylchedd. Awgrymodd rhai y dylid cynhyrchu bwyd yn fwy lleol a dylid cefnogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain. Mae cyswllt amlwg rhwng bwyd ac iechyd a chydaddoldeb; heb fynediad at fwyd o ansawdd da, bydd iechyd pobl Gwent hefyd yn dioddef.*

*Roedd **Tai** hefyd yn thema allweddol a ddaeth i'r amlwg. Tynnwyd sylw at yr angen i'r stoc dai ddiwallu anghenion mwy o bobl, fel trigolion sengl, a bod yn addas i'r boblogaeth sy'n heneiddio a phobl ag anableddau. Mae angen tai fforddiadwy, o ansawdd, sy'n briodol.*

*Daeth **pwyslais ar yr amgylchedd** i'r amlwg yn glir, gyda phobl yn crybwyll effeithiau newid yn yr hinsawdd, allyriadau carbon a'r angen i ddiogelu'r amgylchedd. Fe wnaethon nhw awgrymu bod newid hinsawdd yn effeithio ar bob ffactor fel trafndiaeth, bwyd, ynni, ac iechyd a thai. Roeddent yn cydnabod pa mor bwysig ydyw i gael cynllun sy'n addasu i newidiadau yn yr hinsawdd a'r effeithiau sy'n deillio o hynny. Thema allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd diogelu ac adfer yr amgylchedd sydd eisoes yng Ngwent, drwy annog mwy o fannau gwyrdd a glas, lleihau allyriadau carbon ac ynni adnewyddadwy. Roedd dod yn sero net yn ffactor allweddol.*

Rhywbeth roedden ni'n ei glywed yn rheolaidd wrth siarad â grwpiau oedd bod **cwmpas** y Cynllun drafft **yn rhy fawr** a'u bod yn **amau'n fawr y byddai adnoddau ar gael i'w gyflawni**. Ar y cyfan, roedd y bobl yn deall y pwysau sydd ar wasanaethau cyhoeddus yn nhermau cyfyngiadau'r gyllideb ac yn cydnabod blynyddoedd o doriadau i gyllid. Er eu bod yn edmygu ewyllys y cynllun, roedd llawer yn pryderu na fyddai'n bosibl ei gyflawni.

Sut y gwnaethom gyrraedd y camau olaf

Gwnaethom gydnabod bod cynnwys y Cynllun drafft yn cael ei gefnogi'n eang iawn, ond bod pobl o'r farn bod y camau'n rhy eang, felly na fyddai modd ei gyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael. Aethom ati ailddrafftio fersiwn symlach o'r Cynllun. Rydym yn fodlon bod y fersiwn derfynol yn rhoi pwyslais ar y negeseuon allweddol a dderbyniwyd drwy gydol yr ymgynghoriad.

Isod, mae'r 5 cam y penderfynwyd arnynt, gyda rhywfaint o resymeg dros sut y datblygwyd hwy:

Cymryd cam i leihau'r argyfwng costau byw yn y tymor hir.

Daeth y mater hwn i'r amlwg yn helaeth wrth fynd ati i ymgysylltu â'r gymuned, ac ymhob grŵp ffocws. Teimlai pobl yn gryf y dylid pwysleisio mwy ar dlodi a chostau byw. Cydnabuwyd bod hyn yn cael effaith enfawr ar bobl ar hyn o bryd, ond mae ganddo botensial hefyd i greu niwed yn y tymor hir, ac effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.

Roedd pryder ynghylch tlodi mewn gwaith yn glir yn y data, a dywedodd llawer bod costau'r pethau hanfodol o ddydd i ddydd, yn cynnwys trafndiaeth, yn ofid i lawer. Mae'r cam hwn yn cysylltu â 'darparu a galluogi'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a phriodol o ansawdd da,' am fod yr ymgynghoriad hefyd yn dangos tystiolaeth bod pryder cynyddol am ddiffyg cartrefi fforddiadwy, nid yn unig i'w prynu neu'u rhentu ond i'w cynnal. Roedd hwn yn fater o frys, a hynny'n amlwg, ac fe wnaeth llawer fynegi'r angen i fynd i'r afael â'r costau byw nawr, yn ogystal ag yn y dyfodol.

Darparu a galluogi'r cyflenwad o gartrefi fforddiadwy a phriodol o ansawdd da.

Roedd cartrefi, tai fforddiadwy, a thai o ansawdd da yn thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg wrth ymgysylltu â'r gymuned. Un o'r sylwadau cyffredin oedd "beth am wella'r tai sydd gennym ni yn hytrach na adeiladu rhai newydd." Soniwyd am yr angen i wella'r tai sydd eisoes yng Ngwent. Roedd llawer o sylwadau yn awgrymu y dylid sicrhau bod y tai yn fwy ecogyfeillgar, gan gysylltu'r camau i leihau allyriadau carbon, addasu i newid yn yr hinsawdd a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol. Fe wnaeth llawer awgrymu paneli solar a lleihau nifer y tai newydd sydd yn cael eu hadeiladu. Roedd lleoli cartrefi yn ôl swyddi, trafndiaeth, addysg ac iechyd hefyd yn bwysig ac roedd pobl yn teimlo y gall cartrefi o ansawdd isel effeithio ar sawl agwedd ar fywyd yng Ngwent.

Cymryd camau i leihau ein hallyriadau carbon, helpu Gwent i addasu i newid yn yr hinsawdd a diogelu ac adfer ein hamgylchedd naturiol.

Awgrymodd y data nifer uchel o bryderon mewn perthynas â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd. Thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg oedd gwarchod y mannau gwyrdd yng Ngwent. Roedd lleihau ein hallyriadau carbon hefyd yn thema allweddol ac roedd llawer yn ystyried lleihau'r ddibyniaeth ar drafnidiaeth breifat fel ffordd o wella hyn. Roedd llawer yn cytuno â'r angen i amddiffyn bywyd gwyllt yng Ngwent ac fe wnaethant fynegi'u barn ar sut mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar fywyd gwyllt. Roedd addasu i newid hinsawdd hefyd yn thema allweddol gan y bydd mwy o lifogydd yn effeithio ar les pobl yng Ngwent. Daeth bwyd i'r amlwg yma hefyd, gyda'r cyfranogwyr yn gofidio am wastraff bwyd a bwyd yn cael ei gludo o dramor. Roedd datblygu dealltwriaeth ynglŷn â sut i dyfu bwyd yn un o'r camau posibl a nodwyd gan gyfranogwyr. Nododd pobl hefyd pa mor bwysig yw addysgu pobl am yr amgylchedd, newid yn yr hinsawdd ac allyriadau carbon.

Cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, drwy fframwaith Egwyddorion Marmot.

Roedd yn amlwg bod llawer o gyfranogwyr yn cytuno â phwysigrwydd mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd. Fe wnaeth llawer sôn am fynediad i ysbytai a sut roedd trafndiaeth yn ffactor mawr, am ei fod yn anodd cael mynediad i'r ysbytai lleol, yn enwedig ar drafnidiaeth gyhoeddus. Awgrymodd rhai nad oedd y cynllun drafft yn cyfeirio'n ddigonol at bobl anabl a'r henoed, gan dynnu sylw at unigrwydd ac unigedd. Cytunodd y cyfranogwyr yn unfrydol fod y cysylltiadau rhwng anghydraddoldeb ac iechyd yn glir. Dywedodd nifer fod gofal a thriniaeth iechyd yn anoddach i'w gael yn dilyn y pandemig.

Galluogi a chefnogi pobl, cymdogaethau a chymunedau i fod yn wydn, i feithrin cyswllt, i ffynnu ac i fod yn ddiogel.

Dangosodd yr ymgynghoriad fod pobl eisiau i gymunedau yng Ngwent fod yn ddiogel ac yn fwy cysylltiedig. Soniodd llawer am eu hawydd i fyw mewn cymuned ddiogel, gan sôn am bethau fel Gwarchod y Gymdogaeth a bod yr heddlu yn fwy gweladwy, gan awgrymu y byddai hyn yn gwneud i bobl deimlo'n ddiogel. Nododd pobl hefyd sut mae effeithiau Covid-19, costau byw cynyddol a'r rhyfel yn Wcráin wedi gwneud i bobl fod yn fwy ymwybodol o'r angen i unigolion, cymdogaethau a chymunedau o ddiddordeb i gefnogi ei gilydd ac i fod yn wydn. Nododd yr ymatebwyr yn rheolaidd yr angen i fod yn gynhwysol er mwyn lleihau unigrwydd. Roedd tlodi yn thema gyffredin a ddaeth i'r amlwg, gyda phobl yn cysylltu hyn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn sawl ardal ddifreintiedig yng Ngwent. Awgrymodd pobl fod angen i gymunedau weithio ar gyfer pob oedran. Mae angen bod yn fwy ystyriol o oedran tra hefyd yn darparu mwy o glybiau ieuenctid a gweithgareddau cymunedol i bobl ifanc. Byddai hyn yn arwain at gymuned barchus, ffyniannus a diogel i bawb. Roedd gweithgareddau hamdden a mynediad i fannau gwyrdd diogel o ansawdd uchel yn yr ardal leol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr iawn.

Hoffem ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y broses ymgynghori a gobeithiwn ei fod yn amlwg pa mor werthfawr oedd eich mewnbwn.